
Rhifau personol

Adolygiad o'r ystod rhifau 070

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 6 Rhagfyr 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 28 Chwefror 2018

Gair am y ddogfen hon

Mae rhifau 070 wedi cael eu dylunio i'w defnyddio fel gwasanaeth personol neu 'dilynwch fi', ac weithiau maent yn cael eu drysu â rhifau symudol. Mae'r dryswch hwn yn achosi pryder i ni, fel y mae'r posibilrwydd o ddefnyddwyr yn wynebu costau uchel wrth ffonio rhifau 070, a'r dystiolaeth o gamddefnyddio'r rhifau hyn at ddibenion twyllodrus.

Yn y ddogfen hon rydym yn nodi ein hasesiad dros dro o'r farchnad ar gyfer terfynu rhifau 070, a'r cynigion ar gyfer rheoleiddio'r farchnad hon. Mae'n rhan o'r Adolygiad o Gost Galwadau a gyhoeddwyd gennym ym mis Mai 2017.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb gweithredol	1
-------------------------	---

Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	5
A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom	8
A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	9
A4. Cwestiynau'r Ymgynghoriad	11

1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 Ar 12 Mai 2017, cyhoeddodd Ofcom y byddai'n lansio Adolygiad o Gost Galwadau er mwyn archwilio'r gost o ffonio rhifau 118 a 070. Diben hyn yw sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod rhag prisiau uchel ac ymarfer annheg mewn perthynas â defnyddio'r rhifau hyn. Dyma'r ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf yng nghyswllt yr Adolygiad o Gost Galwadau. Mae'n canolbwyntio ar yr ystod 070.
- 1.2 O ran 070, rydym wedi nodi ein pryder ynglŷn â'r gost o ffonio'r rhifau hyn, dryswch defnyddwyr ynghylch rôl a chost y rhifau hyn, a'r camddefnydd a wneir ohonynt yn aml.
- 1.3 Mae rhifau personol neu 'dilynwch fi', sy'n gweithredu yn yr ystod rhifau 070 pwrpasol, yn caniatáu i unigolion gynnig un rhif cyswllt maent yn gallu ei gyfeirio at rif sefydlog neu symudol o'u dewis, un ai'n barhaol neu mewn ymateb i newid mewn amodau. Cafodd y rhifau hyn eu sefydlu yn y 90au i ddellio â'r galw (cyn dyddiau crwydro symudol) am un rhif y gellid ei ddefnyddio wrth deithio'n fewnol neu'n rhyngwladol.
- 1.4 Ymysg prif nodweddion gwasanaeth rhifau personol mae:¹
 - un rhif cyswllt i deulu, ffrindiau, a chyd-weithwyr busnes;
 - annibyniaeth rhwydwaith (gall perchennog rhif personol newid ei ddarparwr heb newid rhif ffôn);
 - gwasanaeth 'dilynwch fi unrhyw le' hawdd ei ddefnyddio; a
 - gwasanaethau ategol, fel post llais neu wasanaethau negeseuon.

Cefndir a phwrpas yr adolygiad

- 1.5 Cafodd y ffioedd cyfanwerthol ar gyfer galwadau i rifau 070 (y "cyfraddau terfynu") eu gosod yn fasnachol ym mlynnyddoedd cynnar y ganrif hon, a dyluniwyd hwy i ganiatáu i gwmnïau adennill cost lawn y gwasanaeth, gan gynnwys y gost o ailgyfeirio'r galwadau. Ac ystyried y gost uchel o derfynu galwadau symudol a rhyngwladol bryd hynny, roedd y ffioedd cyfanwerthol ar gyfer terfynu galwadau 070 yn eithaf uchel o reidrwydd, er mwyn adennill yr holl gostau'n llawn.
- 1.6 Ers hynny, er bod y rhan fwyaf o gyfraddau terfynu cyfanwerthol ar gyfer rhifau eraill wedi disgyn, mae'r rhai ar gyfer 070 yn dal yr un fath. Mae hyn yn golygu bod y gyfradd 070 yn uchel o'i chymharu â chost gyfanwerthol y gwasanaeth. Ar ben hynny, mae'r cyfraddau 070 yn uchel o'u cymharu â gwasanaethau eraill. Er enghraifft, tua 40 ceiniog y funud yw'r cyfraddau hyn, o gymharu â chyfraddau terfynu symudol yn y DU sy'n tua 0.5 ceiniog y funud.
- 1.7 Ar hyn o bryd, mae costau cyfanwerthol cysylltu galwad 070 â derbynnydd yn cael eu hadennill yn llawn drwy'r ffi adwerthol y mae'r sawl sy'n ffonio yn ei thalu. Mae hyn yn cynnwys y gost o ailgyfeirio galwyr at rifau daearyddol yn y DU, rhifau symudol yn y DU, a

¹ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/47180/statement.pdf

rhifau rhyngwladol. Felly mae defnyddwyr sy'n ffonio rhifau 070 yn talu mwy na phobl sy'n gwneud galwadau o'r un hyd i rifau symudol neu genedlaethol, ac nid yw ffioedd galwadau o'r fath byth yn cael eu cynnwys mewn bwndeli galwadau.

- 1.8 Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu drwy'r ymchwiliad i'r farchnad yn awgrymu nad yw defnyddwyr, yn gyffredinol, yn gwahaniaethu rhwng ystodau 070 a'r ystodau symudol. Mae hynny'n golygu bod cwsmeriaid, wrth ffonio rhifau 070, yn aml yn credu'n anghywir eu bod yn ffonio rhif symudol, ac felly'n talu'r ffi adwerthol ar gyfer galw rhif symudol, neu fod yr alwad wedi'i chynnwys yn eu bwndel galwadau, er nad yw hynny'n wir.
- 1.9 Mae'r refeniw sydd ar gael drwy ffioedd terfynu galwadau uchel hefyd yn annog cwmnïau sy'n cynnig rhifau cyswllt tymor byr i ddefnyddio'r rhifau hyn. Enghraifft o'r rhifau tymor byr hyn yw'r rhai sydd i'w gweld mewn mân hysbysebion, sydd wedyn yn gallu cael eu hailgyfeirio at rif parhaol yr hysbysebwr. Er bod hyn yn gallu bod o werth i'r hysbysebwr, ar y costau ffonio presennol gall olygu cost sylweddol uchel (ac annisgwyl yn aml) i'r galwr.
- 1.10 Yn ein barn ni, mae'r cyfraddau terfynu cymharol uchel ar gyfer rhifau 070, ynghyd â'r ffaith nad yw galwyr, yn gyffredinol, yn gyfarwydd iawn â gwahaniaethu rhwng ystodau 070 ac ystodau symudol, wedi arwain at y canlyniadau gwael canlynol:
- **Prisiau rhy uchel:** Mae cyfraddau terfynu galwadau uchel yn annog darparwyr telegyfathrebiadau i beidio â chynnwys y galwadau hyn mewn bwndeli galwadau cynhwysol, ac yn annog prisiau adwerthol cymharol uchel;
 - **Sioc biliau:** Yn sgil prisiau adwerthol uchel, mae dryswch galwyr o ran rhifau 070 a rhifau symudol yn arwain at filiau annisgwyl o uchel;
 - **Dewsiadau camliwiedig rhwng defnyddio 070 a mathau eraill o grwydro:** Gan nad yw derbynyddion y galwadau i rifau 070 yn dueddol o orfod talu ffi, nid ydynt yn wynebu cost gywir eu dewis, ac felly mae defnyddio rhifau 070, yn lle dibynnu'n gyfan gwbl ar grwydro symudol neu wasanaethau eraill, yn gallu bod yn uwch na'r hyn sy'n ddymunol yn gymdeithasol;
 - **Twyll darparwyr gwasanaethau:** Er enghraifft sgamiau methu galwadau, lle efallai y bydd y defnyddiwr yn dychwelyd galwad i rif 070 gan ei fod wedi'i gamgymryd am rif symudol, neu'r arfer o hyrwyddo hysbysebion swydd ffug â rhif cyswllt 070;
 - **Chwyddiant traffig artiffisial rhyngwladol:** Lle mae gweithredwyr yn y DU yn trefnu i achosi traffig i'w rhifau mewn sefyllfaoedd lle mae'r gost o wneud yr alwad yn is na'r taliad i'r gweithredwr yn y DU, gan nad yw darparwyr telegyfathrebiadau y tu allan i'r DU wedi sylwi bod 070 yn wahanol i rif ffôn symudol yn y DU;
 - **Twyll yn ymwneud â hunaniaeth:** Gan nad yw darparwyr gwasanaethau yn adennill y gost terfynu gan dderbynydd yr alwad fel arfer (hy eu cwsmeriaid eu hunain), nid oes angen iddynt gael manylion am bwy yw'r derbynyddion go iawn na sefydlu cysylltiadau talu, sy'n golygu y gellid defnyddio'r rhifau 070 at ddibenion troseddol, lle mae manylion adnabod go iawn y derbynydd wedi'u cuddio.²

² Yn ogystal, rydym yn credu bod y dystiolaeth yn awgrymu bod camddefnyddio'r ystod 070 wedi, yn y gorffennol, tansilio'r defnydd o'r rhifau hyn ar gyfer darparu gwasanaethau cyfathrebu electronig mewn ffordd arloesol.

- 1.11 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr ystod rhifau 070 wedi bod yn destun mwy a mwy o dwyll. Cafodd twyll gwerth tua £17m ei adrodd i'r heddlu dros gyfnod o 18 mis.³ Fodd bynnag mae tystiolaeth i awgrymu bod hyd at 60% o'r holl alwadau yn cael eu gwneud i dwyllwyr a chamddefnyddwyr eraill o'r ystod⁴, a fyddai'n awgrymu bod twyll nas adroddir yn erbyn defnyddwyr a busnesau yn uwch o lawer.
- 1.12 Nod yr adolygiad hwn yw mynd i'r afael â'r pryderon hyn o ran cystadleuaeth a defnyddwyr, sy'n codi o'r ffioedd cyfanwerthol uchel, drwy ystyried a yw'r ffioedd uchel hyn yn deillio o bŵer sylweddol yn y farchnad gan weithredwyr yr ystodau rhifau hyn ac, os felly, beth dylid ei wneud i fynd i'r afael â'r pŵer hwn yn y farchnad. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen Adolygiad o Gost Galwadau ehangach a gyhoeddwyd gennym ym mis Mai 2017.

Canfyddiad dros dro ynghylch pŵer sylweddol yn y farchnad, a'r ateb a gynigir

- 1.13 Mae ein canfyddiad dros dro yn dangos bod gan bob darparwr telegyfathrebiadau y dyrennir rhifau 070 iddo bŵer sylweddol yn y farchnad terfynu galwadau 070, o ran yr ystodau rhifau sydd ganddynt. Mae hyn yn golygu bod darparwyr sydd wedi cael yr ystodau rhifau hyn yn gallu gosod cost terfynu yn annibynnol ar y farchnad.
- 1.14 Rydym wedi dod i'r casgliad dros dro mai'r ymateb priodol i'r pŵer hwn yn y farchnad yw gosod cap ffioedd ar y gyfradd terfynu ar gyfer galwadau i rifau 070. Wrth osod lefel y cap hwn, rydym wedi ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r pryderon o ran cystadleuaeth a defnyddwyr sydd wedi codi o ganlyniad i'r pŵer yn y farchnad.
- 1.15 Ein barn dros dro yw y byddai gosod cap ffioedd a fyddai'n cadw at y dull presennol ar gyfer adennill costau, lle mae cost gyfan y gwasanaeth 070, gan gynnwys ailgyfeirio galwadau, yn cael ei hadennill drwy'r ffi gyfanwerthol, yn parhau i annog camymddygiad gan rai cyfranogwyr yn y farchnad, oherwydd mae'n debygol y byddai lefel sylweddol o refeniw yn dal ar gael drwy alwad i rif 070. Felly, rydym wedi dod i'r casgliad dros dro y dylid gosod y cap ar lefel sy'n ei gwneud yn ofynnol i adennill costau gan y galwr a derbynnydd yr alwad.
- 1.16 Rydym wedi ystyried dewisiadau ar gyfer pennu'r cap, ac wedi dod i'r casgliad dros dro mai'r dull mwyaf priodol yw cysoni'r cap â'r cap ar gyfer rhifau symudol, a osodir gan Ofcom. Tua 0.5 ceiniog y funud yw'r cap hwnnw ar hyn o bryd.⁵
- 1.17 Rydym yn rhag-weld y bydd cysoni'r ffi terfynu ar gyfer 070 â'r ffi ar gyfer rhifau symudol yn cael gwared ar y cymhelliant ar gyfer twyll domestig a rhyngwladol. Dylai hefyd baratoi'r ffordd i ddarparwyr telegyfathrebiadau adwerthol osod prisiau tebyg ar gyfer galwadau

³Yn ôl adroddiad y Ganolfan Gwybodaeth Twyll Genedlaethol a gyflwynwyd i Ofcom yn 2013, cafodd 4,596 o droseddau eu hadrodd i 'Action Fraud' rhwng 1 Ionawr 2011 a 31 Gorffennaf 2013 a oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Rhifau Personol.

⁴ amcangyfrif [BT].

⁵ Yn ein hymgynghoriad ar ein hadolygiad o'r farchnad terfynu galwadau symudol 2018-21, rydym wedi cynnig lleihau'r ffi hwn i 0.493 ceiniog y funud o 1 Ebrill 2018 ymlaen, a'i leihau eto ar 1 Ebrill 2019 ac 1 Ebrill 2020:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/103340/mobile-call-termination-consultation.pdf.

symudol a rhai 070. Dylai hyn, yn ei dro, leihau'r posibilrwydd o niwed i ddefnyddwyr yn sgil 'sioc biliau'. Yn ogystal â hynny, efallai y bydd darparwyr yn dechrau cynnwys rhifau 070 mewn pecynnau galwadau cynhwysol, ynghyd â galwadau symudol.

- 1.18 Wrth i gwmnïau sy'n cynnig rhifau 070 orfod dechrau codi ffi ar dderbynyddion galwadau am ddefnyddio'r rhifau hyn, rydym hefyd yn disgwyl y bydd hyn yn annog defnyddwyr i wneud dewis mwy effeithlon o rifau personol, hy rhwng defnyddio 070 a dewisiadau eraill (fel crwydro symudol neu fathau eraill o gyswllt symudol, fel gwasanaethau VoIP (Protocol Llais dros y Rhynggrwyd)). Mae hyn hefyd yn debygol o fod o fudd i gymdeithas drwy dynnu rhwystr at bartïon olrhain sy'n cymryd rhan mewn twyll sy'n ymwneud â hunaniaeth.
- 1.19 Rydym yn deall y bydd defnyddwyr dilys o'r ystod yn wynebu costau trawsnewid o ganlyniad i'r newid hwn, ond rydym eisoes wedi gweld bod sefydliadau yn rhoi'r gorau i ddefnyddio 070 heb newid eu model busnes rhyw lawer. Rydym yn ystyried ar hyn o bryd bod lefel y niwed i ddefnyddwyr yn sgil yr ystod hon ar ei ffurf bresennol yn cyfiawnhau gorfodi costau o'r fath.

Ymgynghori a'r camau nesaf

- 1.20 Rydym yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ar y cynigion yn y ddogfen hon. Bydd yr ymgynghoriad yn para am 12 wythnos, a'r dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 28 Chwefror 2018. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am sut i ymateb. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein casgliadau yn 2018.

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 15 Chwefror 2017.
- A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet> Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb. Rydym yn croesawu ymatebion Cymraeg ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r ymatebion a dderbyniwyd yn Saesneg.
- A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i , fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>). At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 15 Chwefror 2018.

Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

070marketreview@ofcom.org.uk

Ofcom

Riverside House

2A Southwark Bridge Road

London SE1 9HA

- A1.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill hefyd, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:
- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs. Neu
 - Llwythwch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A1.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)
- A1.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.
- A1.7 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

- A1.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn atodiad A4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A1.9 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at consult@ofcom.org.uk

Cyfrinachedd

- A1.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.
- A1.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.13 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>

Y camau nesaf

- A1.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn 2018.
- A1.15 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates/>

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.16 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad x.

- A1.17 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.18 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings

Ofcom

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

London SE1 9HA

E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

- A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

- A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.
- A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.
- A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom yw'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
- A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

- A2.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim rhan o'r ymateb

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

A4. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 3.1: Ydych chi'n cytuno gyda'n casgliad arfaethedig ynglŷn â diffiniad y farchnad? Os ydych chi, rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 3.2: Ydych chi'n cytuno gyda'n casgliad arfaethedig am SMP? Os ydych chi, rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 4.1: Ydych chi'n meddwl bod cost y rheoliad arfaethedig yn gymesur i'r niwed a allai defnyddwyr ddioddef oherwydd yr ystod hyn? Os nad ydych yn cytuno, rhowch resymau.

Cwestiwn 4.2: Ydych chi'n cytuno gydag ein cais am gyfnod sefydlu o dri mis? Os nad ydych yn cytuno, rhowch resymau.

Cwestiwn 4.3: Ydych chi'n cytuno gydag ein cais i reoli costau ar 070 TCPs drwy gyfrwng cyfradd meincnod?

Cwestiwn 4.4: Oes gennych sylw pellach am ein cynigion ar gyfer rheoleiddio cyfraddau terfynu 070? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

Cwestiwn A9.1: Ydych chi'n cytuno gyda'n dull ni o amcangyfrif cost darparu gwasanaeth 070? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.